Addurno

Dyma dasg a hanner
Addurno'r goeden drist
Tynnwn yr holl addurniadau
Mas o'r gist.

Dyma dasg a hanner
Rhaid gwneud y job yn iawn
Dewis yn ofalus heb fod
drwy'r prynhawn.

Peli coch ac aur,
Mor ddisglair a hyfryd.
Addurniadau hardd,
Eu hongian mewn munud!

Tydi hyn yn hawdd?
Addurno'r goeden hon.

Does dim byd yn well,
Addurno yn llon.

Bechdan jam a chaws
Ydi hyn braidd yn od?
Camgymeriad bach -
cinio Wil, siwr o fod.

'Sgidiau glaw a llwy?!
A phapur tŷ bach?!

Mae'r dewis yna'n hurt!
Dyma dipyn o strach!

Cytgan:
Allwn ni addurno
Y goeden gyda'r rhain?
Bydd hi'n edrych braidd yn fler
Fel bwgan brain

BD: Rhoi fy llaw i mewn
Dwi'n teimlo rhywbeth hir.

D: Tyrd ag o i'r golwg
I ni gael gweld yn glir.

BD: Tinsel bendigedig
Hip-hip a hwre

D: Hwn yn hollol berffaith
Cawn ei roi yn ei le

BD: Twrio i'r gwaelodion
Mae'n rhaid cael rhywbeth da!

D: Addurn gwerth ei weld
Na allwn ni ddweud "na"!

BD: Dyma deimlo siap,
un pigog dros ben.

D: Dyma'r union addurn,
be well na seren?

Cytgan
Dyma dasg a hanner
Addurno'r goeden drist
Tynnwn yr holl addurniadau
Mas o'r gist.

Dyma dasg a hanner
Rhaid gwneud y job yn iawn
Dewis yn ofalus heb fod
drwy'r prynhawn.

© 2026 S4C